

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
GYNHALIWYD 4 MAWRTH 2021 AM 7.30YH**

1. Yn bresennol: Y Cyng Meinir James (Cadeirydd), Janet Knott, Elfyn Williams, Eifion Jones, Mair Stephens, Philip Davies, Richard John, Shan Rees ac Arfon Davies (Clerc).

Ymddiheuriadau: Y Cyng Viv Davies, Rheinalt Jones a Hugh Anderson

Cytunwyd ymddiheuriadau parhaol i'r Cyng Hugh Anderson a oedd yn cael ei achosi gan broblemau technolegol ar hyn o bryd.

Nododd y Cadeirydd gydymdeimlad y Cyngor i'r Cynghorydd Shan Rees ar golli ei mam yn ddiweddar.

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 4ydd Chwefror Ionawr 2021.

4. Materion yn Codi

1. Pryderon Diogelwch Priffyrdd ar y B4309 ym Mancycapel – Cadarnhawyd byddai arwyddion newydd yn cael eu gosod wrth ymyl Delfryn a Llety'r Wennol ym Mancycapel gyda marciau araf / slow yn cael eu rhoi mewn lle hefyd. Bydd y Cyngor yn gofyn fod yr arwydd arfaethedig yn Llety'r Wennol yn cael ei symud i ochr arall Fferm Danybanc. Nodwyd.

2. Pryderon am ddiogelwch y ffyrdd ar gyffordd Llandyfaelog â'r A484 – Roedd y Cyngor Sir wedi cynnal arolwg topograffig o'r lleoliad ac yn parhau i fwriadu cwblhau'r gwaith cyn diwedd mis Mawrth. Ni dderbyniwyd ymgynghoriad ar y cynlluniau eto.

3. Atgyweirio goleuadau ffordd cerdded – Roedd y Cyngor yn aros am atgyweirio'r golau panel solar yn Idole. Disgwylid dyddiad hefyd ar gyfer gwaith yn Ysgol Bro Myrddin. Nodwyd.

4. Llwybr troed 29/3 - Rhwng Croesyceiliog a Phentrepoeth – Disgwyliwyd am ragor o wybodaeth am y mater.

5. COVID-19 – Trafododd aelodau'r achosion parhaus o COVID-19 a'r effaith ar y Gymuned.

6. Cais Cynllunio W/40717, Maesglasnant, Cwmffrwd – Cadarnhaodd y Clerc fod y cais yn parhau i gael ei adolygu gan y Cyngor Sir. Nodwyd.

7. Llwybr troed 29/1/1 Cwmffrwd tuag at Cincoed – Nid oedd y Cyngor Sir wedi gallu symud y mater yn ei flaen hyd yma. Nodwyd.

8. Uchafswm Cyflymder Cwmale – Roedd y Cyngor yn aros am gyfarfod o'r Gweithgor Cyflymder er mwyn ystyried ymestyn yr ardal 30mya.

9. Cynnig i adleoli colofn oleuadau ar safle datblygu tai yng Nghroesyceiliog – Disgwylid am ddatblygiadau pellach gyda'r cynnig.

10. Llygaid Cathod - A484 Llandyfaelog i Gaerfyrddin – Disgwylid am ragor o wybodaeth am y mater.

11. Tipio anghyfreithlon ar dir preifat yn Llandyfaelog – Disgwylid am ragor o wybodaeth am y mater.

- 12. Cais Cynllunio PL/00750 - Nantyogetre Isaf, Llandyfaelog** - Cadarnhaodd y Clerc fod y cais yn parhau i gael ei adolygu gan y Cyngor Sir. Nodwyd
- 13. Diwrnod y GIG, Gofal Cymdeithasol a Gweithwyr Rheng Flaen** – Bydd y mater yn parhau i fod ar yr agenda i'w ystyried yn y dyfodol.
- 14. Gwter / draen ar ben llethr Llandyfaelog** – Disgwyliwyd am ragor o wybodaeth am y mater.
- 15. Pyllu dŵr ar hyd Heol y Lan** - Disgwyliwyd am ragor o wybodaeth am y mater.
- 16. Erydiad Lôn Cwmale** - Disgwyliwyd am ragor o wybodaeth am y mater.
- 17. Gorfodi Cynllunio, eiddo mewn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth** - Disgwyliwyd am ragor o wybodaeth am y mater.
- 18. Taith Cerdded Treftadaeth Peter Williams** - Roedd y Clerc wedi cysylltu â Mr Brenig Davies ar y cynnig ac wedi egluro'r cyfleusterau sydd ar gael yn y Gymuned. Roedd gan Mr Davies ddiddordeb mewn gweld a oedd unigolion yn y Gymuned a allai ddarparu ar gyfer taith o'r fath. Yn y cyfamser, roedd y Clerc wedi darparu llythyr o gefnogaeth i'r prosiect y gellid ei ddefnyddio ar gyfer ceisiadau grant. Nodwyd.
- 19. Lladrad cŵn** - Derbyniwyd diweddariad ar y camau a gymerwyd gan yr heddlu mewn perthynas â'r mater ynghyd â'u cyngor ar gyfer perchnogion cŵn. Bydd y Clerc yn rhoi'r wybodaeth hon ar wefan y Cyngor. Nodwyd.
- 20. Pryderon diogelwch priffyrdd, Cyffordd Ffordd Bolahaul yr A484 yng Nghwmffrwd** - Roedd y Clerc wedi codi'r mater gyda'r heddlu a'r Cyngor Sir, a oedd bellach yn ymchwilio i'r mater. Nodwyd.

5. Gohebiaeth

- 1. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** - Llythyr yn gwahodd Cynghorau i fod yn rhan o Adolygiad y Panel o'r Fframwaith Tâl ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. Y dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb mewn cymryd rhan oedd 1af Mawrth. Roedd y Clerc wedi trafod gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ac wedi cadarnhau diddordeb y Cyngor Cymuned mewn cymryd rhan.
- 2. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** - Adroddiad Blynyddol 2021-22. Bydd y mater yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.
- 3. Cyngor Sir Caerfyrddin** - Llythyr yn hyrwyddo gwaith Pwyllgorau Craffu'r Cyngor Sir ac yn gofyn am awgrymiadau am bynciau posibl i'w hadolygu. Cytunwyd i gyflwyno cais i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd gynnal adolygiad o dipio anghyfreithlon yng nghefn gwlad er mwyn darparu cynllun i fynd i'r afael â'r broblem yn ein Cymunedau a sicrhau eglurder ynghylch pwy sydd â chyfrifoldeb am ddelio â'r mater ynghyd ag amserlenni wedi'u cadarnhau ar gyfer gweithredu pan fydd materion yn codi.
- 4. Llywodraeth Cymru** - Ymgynghoriad ar Gynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon ar gyfer Cymru. I'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Nodwyd.
- 5. Un Llais Cymru** – Cylchlythyr Ionawr. Nodwyd.
- 6. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** - Ymgynghoriad ar y Canllawiau drafft newydd ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cynghorau Sir a Chymuned / Tref. Nodwyd.
- 7. Cynghorau Iechyd Cymunedol** - Poster yn gofyn am farn ar brofiadau preswylwyr gyda gwasanaethau'r GIG. Bydd y Clerc yn cylchredeg y manylion i aelodau a'u rhoi ar wefan y Cyngor.
- 8. Llywodraeth Cymru** - Cylchlythyr Adolygu Etholiadol. Nodwyd.
- 9. Heddlu Dyfed Powys** - Derbyniwyd gwybodaeth bod y camerâu monitro cyflymder wedi ymweld â Chwmffrwd 9 gwaith ym mis Ionawr a mis Chwefror gan nodi 23 o gerbydau yn teithio uwchlaw'r terfyn cyflymder. Nodwyd.

10. Un Llais Cymru – Crynodeb o ddarpariaeth allweddol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfer y Sector Cyngor Cymuned a Thref. Bydd y Clerc yn ofyn am gyngor pellach ar y gofynion cyhoeddi gwybodaeth arfaethedig wrth Un Llais Cymru.

11. Cylchgrawn Clerk and Councils Direct – Nodwyd.

6. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor

1. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi derbyn y nodiadau Trosglwyddo Gwastraff gan Mark's Gardening Services ar gyfer cytundeb 2020. Nodwyd.
2. Cadarnhaodd y Clerc fod gosod y postyn giât ganolog newydd a'r pyst ffensys pren wedi'u cwblhau gyda'r taliad i E and A Fencing o £754.00 gyda TAW yn cael ei gytuno.
3. Nododd y Clerc nad oedd diweddariad pellach mewn perthynas â'r hawliad am gostau'r difrod ffens.
4. Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn pris gan swiftsigns ar gyfer arwydd dim ysmegu ar gyfer Cae Idole o £10.95 gan gynnwys ei osod. Roedd hyn wedi'i gytuno gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a'i osod cyn i'r gwaharddiad ddod i rym ar 1af Mawrth. Cytunwyd hyn a chytunwyd y taliad i swiftsigns.
5. Cadarnhaodd y Clerc fod yr Atgyweiriwr wedi cwblhau adleoli pibell arosfan bysiau Bancycapel. Nodwyd ansawdd y gwaith a gwblhawyd gyda phleser.

7. Cytundeb yr Atgyweiriwr

Cadarnhaodd y Clerc gyfanswm o 14 awr wedi'i weithio ar gyfer mis Chwefror a chytunwyd ar daliad o £210.00.

8. Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol – Adroddiad Blynyddol

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad blynyddol drafft i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ar weithgareddau'r Cyngor yn ystod 2020-21 mewn perthynas â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Ystyriodd y Cyngor yr adroddiad a'i gytuno i'w ddarparu i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith yn paratoui'r adroddiad.

9. Cynllunio

- a) **PL/01235** - Codi storfa slyri i gynyddu'r gallu i storio tail amaethyddol o'r fenter laeth. Ar hyn o bryd mae'r cae yn cael ei ddefnyddio fel cae pori achlysurol - Blaengwastad, Glanyfferi, SA17 5TP. Dim gwrthwynebiadau.
- b) **PL/01141** - Newid defnydd 3 ysgubor i dai gwyliau ac ystafell therapi anifeiliaid - Fferm Garthowen, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8ED. Dim gwrthwynebiadau.
- c) **PL/01244** - Ystafell wydr / ystafell haul i'r blaen - Moelfre Uchaf, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DR. Dim gwrthwynebiadau.

10. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

1. Nodwyd y Cynghorydd Janet Knott ei diddordeb a gwneud gadael y cyfarfod ar gyfer yr eitem - **Gofal Mewn Galar Cruse Sir Gaerfyrddin** - Cytunwyd cyfraniad o £50.00.
2. **Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Canser** - Cytunwyd cyfraniad o £50.00.
3. **Cerebral Palsy Cymru (Bobath)** – Dim cyfraniad.
4. **Gofal Cancr Marie Curie** - Cytunwyd cyfraniad o £50.00.

5. Nododd y Cynghorwyr Meinir James a Shan Rees eu diddordeb a gwnaed gadael y cyfarfod ar gyfer yr eitem. Cymerodd y Cynghorydd Elfyn Williams y Gadair i ystyried y mater.

Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023 - Cytunwyd cyfraniad o £50.00.

6. Apêl Elusen Cadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin - Cytunwyd cyfraniad o £50.00.

11. Cyfrifon

Cytunwyd y taliadau canlynol

1.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Chwefror a chostau	£631.80 £18.00	£7.00 £8.82 £10.80	£676.42	£127.60	£0.00	£548.82

2. M Gibbard £100.00

3. E & A Davies Fencing £904.80

4. Swift Signs £10.95

5. Michael Leefe £210.00

6. Cruse Sir Gaerfyrddin £50.00

7. GGCC £50.00

8. Gofal Cancr Marie Curie £50.00

9. Eisteddfod yr Urdd 2023 £50.00

10. Apêl Elusen Cadeirydd £50.00

Cyngor Sir Caerfyrddin

Lloches Bysiau Croesyceiliog

Gwaith ffensio cae Idole (£754.00 gyda £150.80 TAW) (gweler eitem 6.2)

Arwydd dim ysmegu Idole (gweler eitem 6.4)

Atgyweiriwr Chwefror (gweler eitem 7)

Rhodd (gweler eitem 10.1)

Rhodd (gweler eitem 10.2)

Rhodd (gweler eitem 10.4)

Rhodd (gweler eitem 10.5)

Rhodd (gweler eitem 10.6)

12. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Bydd y Clerc yn codi pryderon ynghylch carafán wedi'i lleoli ger Gelligaeros i Uned Gorfodi Cynllunio'r Cyngor Sir.

2. Bydd y Clerc yn codi pryderon amdano gyflymderau cerbydau ar hyd Heol y Lan gyda'r Cyngor Sir.

3. Bydd y Clerc yn gofyn i Atgyweiriwr y Cyngor lanhau ffenestr lloches Cwmffrwd.

4. Bydd y Clerc yn codi'r posibilrwydd o gael cyllid ar gyfer gosod palmant o Neuadd Llandyfaelog i'r hen ficerdy ynghyd â mainc gyda'r Cyngor Sir.

5. Bydd y Clerc yn codi cwter wedi'i rwystro rhwng Penrheol a Cilfeithy Uchaf gyda'r Cyngor Sir.

6. Bydd y Clerc yn gofyn am wybodaeth gan y Cyngor Sir ar yr amserlen ar gyfer glanhau llochesi fysiau.

7. Bydd y Clerc yn adrodd arwydd wedi pylu ar gyfer Heol y Lan i'r Cyngor Sir.

8. Nodwyd diolch i'r Cyngor Sir am waith yn clirio sbwriel o ochrau ffyrdd yn yr ardal.

Bydd y Clerc yn codi prosiectau casglu sbwriel posibl ar ochr y ffordd gyda'r tîm Ad-dalu Cymunedol / Prawf.

9. Bydd y Cyngor yn trafod y posibilrwydd o brynu offer casglu sbwriel yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

10. Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod diweddar Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru wrth y Cadeirydd.

Cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor Nos Iau 1af Ebrill 2021.